

Gwerthusiad beirniadol a nodi'r camau addysgu a dysgu nesaf sy'n canolbwyntio ar astudiaeth achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, sy'n seiliedig ar ddigwyddiad beirniadol a arsylwyd.

Dywedir (Tripp, 1993. t.8) nid ydi achos critigol yn beth sy'n bodoli yn annibynnol, ac nid ydi achos critigol yn aros i arsylwr ei ddarganfod o fewn arsylwad. Mae achos critigol yn cael ei greu wrth i unigolyn edrych ar sefyllfa mewn llawer o wahanol ffurf. Mae achos critigol felly yn ddehongliad o arwyddocâd digwyddiad. Fe arsylwyd llond llaw o achosion critigol, o unigolyn yn amharu ar weddill ei ddosbarth tan gafodd ef ei symud (Atodiad 6), i ddisgybl sydd yn eistedd yn dawel yn ystod y wers ond ddim yn cyflawni unrhyw gwaith (Atodiad 8). Yr achos critigol dan sylw yn yr aseiniad yma yw disgybl yn gwneud y dasg anghywir mewn gwers. Yn yr aseiniad yma fe fydd yna werthusiad pam y gwnaeth yr achos critigol yma ddigwydd a fydd yna awgrymiadau ar beth a all gwella sefyllfa'r achos critigol. Bydd yr aseiniad yn trafod llenyddiaeth sydd yn ymwneud gyda meysydd dysgu sydd yn cael ei ddadlau i fod yn gysylltiedig gyda'r achos critigol dan sylw. Felly ymchwilir mewn i wahaniaethu o fewn y dosbarth a hefyd maes dysgu sydd yn gysylltiedig ag iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Trwy edrych ar y meysydd dysgu yma mae'n bosib gwerthuso a deall i ryw raddau pam y mae'r achos critigol yma wedi digwydd ac awgrymu beth yw'r camau nesaf i helpu'r sefyllfa.

Arsylwi

Arsylwyd ar ddosbarth o fewn Ysgol Gyfun Gymunedol. Mae'r ysgol yn un gyda chategori cefnogaeth wyrdd (Llywodraeth Cymru, 2018), mae hwn yn golygu bod yr ysgol uwchradd yma yn derbyn 4 diwrnod o gefnogaeth y flwyddyn, sydd yn sefyllfa dda iawn o gymharu â rhai ysgolion sydd yn y categori oren a choch sydd yn derbyn 15 a 25 o ddiwrnodau cefnogaeth (Llywodraeth Cymru, 2019, t.4). Mae'r ysgol yma gyda 882 o ddisgyblion ac mae 4.4% o'r nifer o ddisgyblion yma yn gymwys i gael prydiau ysgol am ddim (Llywodraeth Cymru, 2018). Mae'r ysgol gyfun a arsylwyd yn ysgol arloesol o ran y cwricwlwm newydd yng Nghymru ac mae'r ysgol yn gwasanaethu dalgylch eang gwledig (Estyn, 2016).

Y dosbarth a arsylwyd o fewn i'r ysgol gyfun yma oedd dosbarth o ddisgyblion blwyddyn 9 sef cyfnod allweddol 3. Y pwnc oedd yn cael ei ddysgu oedd Addysg Grefyddol ac roedd

hwn yn cael ei ddysgu i 24 o ddisgyblion. Arsylwyd bod gan y dosbarth yma cynllun eistedd lle gwelir merched a bechgyn yn eistedd ar bwys ei gilydd am yn ail mewn grwpiau o bedwar neu bump. Roedd yna awyrgylch bositif yn y dosbarth gyda'r disgyblion yn defnyddio'r amgylchedd dosbarth oedd o'i gwmpas i wneud eu gwaith yn dawel. Nid oedd yna gynorthwydd dysgu yn y dosbarth felly'r athrawes a minnau fel arsylwr oedd yn y dosbarth gyda'r disgyblion. Yr ail wers o'r dydd oedd y wers yma gydag egwyl yn dilyn, felly disgwylir bod y disgyblion yn ymddwyn yn wahanol tuag at ddiwedd y wers. Roedd y wers yn 50 munud o hyd. (Atodiad 3)

Methodoleg

Yn wahanol i fethodoleg fel er enghraifft cyfweiliadau, mae arsylwi yn galluogi ymchwilydd i edrych ar ddata byw o sefyllfaoedd cymdeithasol sy'n digwydd yn naturiol. Mae arsylwi hefyd yn galluogi unigolion i siarad yn rhydd yn wahanol i fod o dan bwysau amgylchedd methodoleg fel cyfweiliad (Cohen, Manion a Morrison, 2011, t. 456). Awgrymir Cooper a Schindler (Cohen, Manion a Morrison, 2011, t. 458) bod yna tri dimensiwn wrth sôn am arsylwi. Yr un cyntaf yw bod yr arsylwr yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol sef bod yr arsylwr yn yr ystafell neu yn defnyddio dyfais recordio, yr ail yw bod yr arsylwr yn hysbys neu yn anhysbys sef yn weladwy o fewn yr ystafell ond ddim yn ymchwilydd hysbys neu mae'r arsylwr yn un cudd o fewn yr ystafell, a'r trydydd yw arsylwi cyfrannog neu arsylwi sydd heb gyfranogaeth.

Y dull a ddefnyddiwyd wrth arsylwi yn y dosbarth yma oedd y syniad o arsylwr-fel-cyfrannogwr. Mae'r dull yma yn awgrymu bod yr arsylwr ddim yn rhan o'r grŵp sef y dosbarth ond ambell waith yn ystod y wers roedd yna siawns i ofyn ychydig gwestiynau i'r disgyblion a hefyd yr athrawes sydd yn cyfrif fel bod yn arsylwr cyfrannog i raddau. Hefyd yn yr achos yma roedd yr arsylwr yn un agored ac amlwg er bod y dosbarth ddim o angenrheidrwydd yn gwybod beth y mae'r arsylwr yn ymchwilio i mewn iddo (Cohen, Manion a Morrison, 2011, t.457). Wrth arsylwi yn y ffordd yma mae'n galluogi i'r arsylwr gasglu data disgrifiadol o'r ymddygiad penodol y mae'r ymchwil yn edrych am. Mae hwn yn cael ei alw yn 'Low Inference Observation' gan (Roberson, 1998, t.5). Awgrymi'r bod y dull yma yn galluogi arsylwr i ddilyn rhyw fath o allwedd i annog yr arsylwr i edrych am ffactorau pwysig yr ymchwil. Cefnogwyd y syniad yma gan ganllawiau LeCompte a Preissle (Cohen, Manion a Morrison, 2011, t.466), cryfder dilyn y dull yma o arsylwi byddai bod hun galluogi'r arsylwr ateb amrediad eang o gwestiynau i helpu cyflawni'r ymchwil. Roedd y dull yma o arsylwi yn annog strwythur clir i'r arsylwr a hefyd annog bod yr arsylwr yn edrych yn glir ar

ddigwyddiadau penodol yn y dosbarth ac felly yn amlwg wrth i'r arsylwr edrych am achos critigol roedd y dull yma o fudd enfawr.

Er bod 'Low Inference Observations' yn cael ei weld yn ddull gwrthrychol mae'n bosib gweld sut y byddai'r dull yma yn annog barn yr arsylwr cael ei gymysg yn yr ymchwil. Dadleir yn waith Roberson a chefnogi'r gan waith Medley bod cael y strwythur yma wrth arsylwi yn gwneud i'r arsylwr bod yn ddetholus ac felly trwy wneud hun mae'r arsylwr yn defnyddio ei safbwynt ei hunan i ddewis pa fath o ymddygiad y maen nhw'n gweld (Roberson, 1998, t.6). Er hun mae (Jorgensen, 1989, t.13) yn dadlau bod arsylwi yn gyfrannog yn addas iawn i allu archwilio theorïau yn gritigol, ac felly er y mae'n bosib dadlau bod arsylwi yn y modd yma yn wendid oherwydd mae'n bosib bod barn yr arsylwr yn gallu cael effaith negyddol ar yr ymchwil, mae rhaid cofio yn yr achos yma bod angen fod yn gritigol o theorïau o bob ongl i allu cael y canlyniadau orau posib.

Pedwar Pwrpas

Yn ystod y wers Addysg Grefyddol yr oedd yna achos critigol a wnaeth dod i'r amlwg. Roedd yr achos critigol yma yn tarfu lefel isel ar y dosbarth, felly er bod mwyafrif o'r dosbarth wedi dilyn cyfarwyddiadau'r dasg yn ardderchog roedd yna unigolyn a ddewisodd i ddim gwneud y dasg ac aeth ymlaen i wneud tasg hollol wahanol. Roedd y dasg yr oedd yr unigolyn yma yn gwneud yn ymwneud a lliwio ac felly roedd pensiliau lliw ar draws y bwrdd. Roedd ei sibrwd hefyd yn amlwg yn mynd i amharu ar y disgyblion eraill a oedd eisiau mynd ymlaen â'u gwaith. Amharwyd nid yn unig ar waith ei hunan ond ar waith y disgyblion ar ei fwrdd. Unwaith gwnaeth yr Athrawes gweld beth yr oedd y disgybl yn gwneud fe wnaeth hi ofyn i'r disgybl pam nad oedd yn gwneud y dasg a chafodd ei rhoi ar ddechrau'r wers. Dechreuodd yr unigolyn esbonio ei fod wedi drysu oherwydd fe wnaeth ef fethu i gael yr allwedd allan o glo'r tŷ bore yma ac felly roedd yr unigolyn yn poeni beth i wneud nesaf. Yn sicr y mae'n amlwg gyda'r esboniad yma bod y disgybl wedi drysu yn llwyr a ddim yn meddwl yn glir ar yr adeg a ddechreuwyd y dasg, ond mae yna bosibiliad bod hwn yn esgus dros ei ymddygiad ef. Mae'n bosibl felly i dybio bod y disgybl wedi diflasu gyda'r dasg a chafodd ei gyflwyno ar ddechrau'r wers a'i fod eisiau parhau gyda thasg oedd yn ei adlonni. (Atodiad 5).

Yng ngwaith (Donaldson, 2015) mae ef yn cyflwyno'r syniad y bydd y cwricwlwm newydd yng Nghymru yn cynnwys pedwar diben/pwrpas. Mae'r pedwar pwrpas yn canolbwyntio ar ba fath o bobl ifanc y bydd y cwricwlwm newydd yng Nghymru yn creu. Mae'n bosib felly i gysylltu'r achos critigol uchod gyda'r dibenion y mae Donaldson yn cyflwyno. Yn sicr os ydw i'n ystyried yr esboniad bod yr unigolyn yn pryderu am ei fod wedi gadael ei allwedd yng nghlo'r tŷ, mae'n medru cael ei gysylltu gyda'r diben sy'n annog unigolion iach a hyderus.

Dywed y diben yma y bydd y cwricwlwm newydd yn creu plant a phobol ifanc sydd yn gwneud penderfyniadau pwylllog ynghylch eu ffordd o fyw ac yn rheoli risg, wynebu heriau, ei threchgu a delio gyda'u bywyd pob dydd mor annibynnol â phosib (Donaldson, 2015, t. 30). Gellir dweud felly y mae sefyllfa'r disgybl yn dibynnu ar ba mor bwylllog y mae eu ffordd o fyw a rheoliad risg. Efallai os yr oedd yr unigolyn wedi pwylllo a hefyd delio gyda'r sefyllfa yn well y byddai ef heb ddrysu yn y dosbarth a heb ddechrau gwneud y dasg anghywir.

Ar y llaw arall mae yna bosibilrwydd bod y disgybl yma wedi gwneud yr esgus yma i fyny oherwydd ei fod wedi diflasu gyda'r gwaith. Mae hefyd yn bosib bod y disgybl yn gweld y dasg yn rhy galed ac felly mae ef wedi penderfynu gwneud tasg sydd yn hawsach. Mae felly yn bosibilrwydd bod y disgybl wedi penderfynu rhoi esgus yn lle gofyn am gymorth oddi wrth yr Athrawes neu gyfathrebu ei deimladau yn glir am y dasg i'r Athrawes ei helpu. Mae'r cyddestun yma yn cysylltu gyda'r diben sy'n sôn am ddysgwyr uchelgeisiol a galluog. Mae'r diben yma yn hybu cyfathrebu yn effeithiol mewn gwahanol ffurfiau. Os yr oedd y disgybl wedi gwneud hyn ar lafar ar ddechrau'r wers efallai y byddai'r achos critigol heb ddigwydd.

Adolygiad o Lenyddiaeth

Wrth fynd ati i edrych ar lenyddiaeth mae angen sicrhau pa feysydd y mae angen edrych arno i allu gwerthuso a beirniadu achos unigol critigol. Meysydd amlwg sydd yng nglŵm a'r achos critigol mewn golwg byddai gwahaniaethu yn yr ystafell dosbarth, mae hyn oherwydd yn yr achos yma roedd yn bosib iawn bod y disgybl ddim yn gallu gwneud y dasg a roddwyd neu roedd y dasg a roddwyd ddim wedi dal unrhyw ddiddordeb gyda'r disgybl. Hefyd yn yr achos critigol yma roedd y disgybl wedi rhoi esboniad neu esgus i bâm y gwnaeth ymddwyn yn y ffordd yma. Esboniodd y disgybl ei fod yn gofidio oherwydd roedd ef wedi gadael ei allwedd yng nghlo'r tŷ ac felly yr oedd ddim gallu canolbwyntio o ganlyniad i hyn.

Dechreuwyd erthygl (VanTassel-Baska, 2012, t.43) gan ddweud yn glir bod y ffordd y mae athrawon yn ymddwyn trwy eu cyfarwyddid yn cael effaith aruthrol ar faint y mae'r disgyblion yn dysgu. Mae'r erthygl wedyn yn mynd ymlaen i bwysleisio bod cynnwys arferion addysgu arloesol fel strategaethau cwestiynau lefel uwch, dysgu trwy ymholi a sgiliau meddwl beirniadol a chreadigol yn enghraifft o faes addysgu dawnus sydd yn bositif iawn ar gyflawniad y disgybl. Mae'r erthygl yma felly yn rhoi llawer o sylw ar sut y mae'r athro yn ymddwyn a mynd at eu gwaith. Mae'r erthygl hefyd yn rhoi'r pwysau mwyaf o sut i gael canlyniadau positif yn y dosbarth ar yr Athro neu Athrawes, gwelir hwn wrth i'r erthygl ddweud bod gwelliant mewn addysg yn glir yn gofyn am newid yn ymddygiad athrawon wrth iddynt roi cynnig ar hyrwyddo dysgu i'r myfyrwyr (VanTassel-Baska, 2012, t.44). Mae'r

ymchwil yma felly yn berthnasol i'r achos critigol oherwydd ddim ond un dasg oedd ar gael yn ystod y wers a arsylwid, gwelir bod y dasg yn un oedd ddim yn denu llawer o greadigrwydd wrth i'r dosbarth copïo darn allan a oedd yn cynnwys geiriau a fyddai llawer o ddisgyblion yn ei weld yn anodd i ddeall. Gellir dadlau felly bod yr erthygl yma yn cyflwyno syniadau ar sut i ddatblygu'r addysgu yn yr achos yma, a'i fod yn egluro os mae'r addysgu yn aros yr un peth heb gyflwyniad gan yr athro o arferion addysgu arloesol y bydd na ddim datblygiad positif mewn gallu'r disgyblion yn y dosbarth yma.

Er hun wrth ddadansoddi erthygl VanTassel-Baska mae'n hawdd gweld bod yna bwyslais mawr ar sut y dylai athrawon newid ar gyfer creu datblygiad a gwellhad dros eu disgyblion. Mae'n bosib gweld felly bod yna ddim sylw gormodol ar sut y gall y disgyblion ymddwyn i wella ar ben ei hunan ac felly ddim sylw ar sut y byddai disgybl yn gallu mentro i wella ei sefyllfa unigol. Gellir dadlau felly bod y syniadau yma o gael datrysiad yn llwyr ar ben yr Athro yn mynd yn erbyn syniad (Donaldson, 2015) ar y pedwar diben. Mae'r pedwar diben yn hybu cyfranwyr mentrus a chreadigol ac felly er bod yna bwysau ar athrawon i hybu a hyrwyddo dysgu mewn ffyrdd gwahanol yn y dosbarth mae cyd-destun y cwricwlwm newydd yng Nghymru yn anghytuno i raddau gyda'r erthygl oherwydd dylid y dysgwr cymrid rhyw fath o gyfrifoldeb ar sut y byddent yn cyrraedd eu targedau.

Darn o lenyddiaeth arall y mae modd cysylltu gyda'r maes o wahaniaethu o fewn yr achos critigol yma byddai gwaith (McNamara a Moreton, 1997). Mae 'Understanding Differentiation' yn lyfr sydd yn dangos modeli o wahaniaethu o fewn y dosbarth dysgu ac yn cynnig syniadau y byddai o fydd i gyd-destun yr achos critigol mewn golwg. Yn wahanol iawn i syniadau VanTassel-Baska a oedd yn uwchleio pwysigrwydd ymddygiad yr athro mae McNamara a Moreton yn pwysleisio bod y ddibyniaeth yma ar yr athro ddim ond yn mynd i greu disgyblion sydd yn ddibynnol ar yr athro i ddysgu. Hefyd mae'r disgyblion yn datblygu diymadferthedd oherwydd bod y disgyblion yn ddibynnol ar yr athro am ysbrydoliaeth a threfniant o'r dosbarth (McNamara a Moreton, 1997, t.4). Hefyd o fewn y darn o lenyddiaeth yma mae'n bosib cysylltu yn glir gyda'r pedwar diben y cwricwlwm er bod y darn o lenyddiaeth yma yn ymchwil sydd wedi dyddio ychydig. Mae'r darn yn esbonio model o wahaniaethu sydd yn hyrwyddo dysgu annibynnol y disgyblion, mae'n bosib gwahaniaethu trwy adael i'r disgyblion recordio eu dysgu sut y maent eisiau, mae hwn dywedir (McNamara a Moreton, 1997, t.5) yn gadael y darllen ac ysgrifennu ffurfiol ar gyfer asesu ffurfiol ac yn rhoi rhyddid iddyn nhw ddangos beth y maent wedi dysgu mewn ffordd greadigol. Y mae'r pwynt yma felly yn rhoi ffordd sut y gall athrawon trwy'r cwricwlwm newydd hybu cyfranwyr mentrus a chreadigol (Donaldson, 2015).

Cytunir darn (Corolan a Guinn, 2006) bod gwahaniaethu trwy ffurf o adael i'r disgybl dewis a dangos sut y maent wedi dysgu yn bositif iawn yn enwedig wrth ddysgu disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol sydd yn aml yn gryfach mewn un maes o ddysgu na rhai arall (Corolan a Guinn, 2006, t.45). Mae gwahaniaethu yn y ffurf hun felly yn sicr yn galluogi nhw i gyrraedd eu potensial yn y ffordd y maen nhw eisiau. Er hun mae'r darn o lenyddiaeth yma yn tynnu sylw bod y syniad yma o ryddid wrth ddysgu ddim yn golygu y dylid y disgyblion cael hollol rhyddid, dywed y darn yma dylid ffeindio hafalrwydd rhwng strwythur a dewis y disgyblion i wneud yn siŵr bod y gwaith ar y trywydd cywir wrth weithredu'r gwahaniaethu yma. Mae'r darn yma felly yn rhoi cydnabyddiaeth bod y model yma o wahaniaethu yn effaith bositif ar ddysgu'r disgyblion ond y mae rhaid bod yn realistig ac arwain y disgyblion i ryw raddau cyn iddynt fynd ar goll trwy ddewis ffurf o gofnodi eu dysgu sydd ddim yn y pendraw yn effeithiol. Wrth edrych ar yr achos critigol mewn golwg mae'n bosib gweld sut y byddai dadlau am ryddid creadigol yn bosib i'r unigolyn ond hefyd gweler y byddai hollol rhyddid heb strwythur gan yr athro efallai ddim yn galluogi'r disgybl i fod ar y trywydd cywir i wella. I ryw raddau byddai'r darn yma yn cytuno gyda gwaith VanTassel-Baska sydd yn rhoi cyfrifoldeb o sut y mae'r disgyblion yn dysgu i gyd ar yr athro neu athrawes. Mae'n bosib dadlau hun oherwydd gwelir bod angen rhyw fath o arweiniad gan yr athro wrth fodeli wahaniaethu yn y dosbarth ac felly mae'n bosib bod y darn yma yn cytuno gyda'r ddau ddarn o lenyddiaeth gychwynnol.

Maes arall ar gyfer dysgu y mae'r achos critigol o dan sylw yn cyffwrdd arni ydi stad iechyd meddwl y disgybl a sut y mae'n effeithio ar sut y mae'r disgybl yn dysgu. Pan wnaeth yr athrawes gweld y bod y disgybl yn gwneud y dasg anghywir fe ddywedodd y disgybl bod yna rheswm pam yr oedd y camgymeriad yma wedi digwydd. Roedd hyn oherwydd yr oedd yn gofidio ei fod wedi gadael ei allwedd tŷ yng nghlo'r tŷ. Cynhelir papur gan Brifysgol Harvard a oedd yn edrych ar sut mae ofn a gorbryder yn effeithio ar ddatblygiad a dysgu plant. Dadleir ar ddechrau'r papur bod amgylchedd sydd yn galluogi disgybl i ddatblygu ymennydd a chyrff iach nid yn unig yn bositif iddyn nhw fel unigolion ond hefyd yn bositif i gymdeithas sydd eisiau ffynnu a llwyddiannau (National Scientific Council on the Developing Child, 2010, t.1). Mae'r pedwar diben o fewn gwaith (Donaldson, 2015) felly yn cytuno gyda'r papur ac yn hybu'r syniad yma i greu disgybl sydd yn barod i wella cymdeithas y mae rhaid ei fod ef neu hi yn berson iach ac yn hyderus. Er bod y papur yn cydnabod bod digwyddiadau a ddigwyddodd unwaith yn sicr yn gallu cael yr effaith o orbryder ar ddisgybl ac yn gallu effeithio ar ei gwaith, mae'n bosib gweld bod y darn yma o lenyddiaeth efallai yn canolbwyntio mwy ar effaith ofn dros gyfnod hir ar ddisgybl. Er ei bod yn cyffwrdd ar sefyllfa debyg i'r achos critigol, mae'r papur yn edrych mwy dwfn ar achosion mwy difrifol.

Mae darn (Hurley, 2018) yn canolbwyntio mwy ar orbryder yn lle ofn mewn disgyblion. Credir Hurley bod gorbryderu sydd heb gael ei drin yn arwain at berfformiad ysgol wael a gweithrediad cymdeithasol gwael. Yn ychwanegol i hyn mae Hurley yn dweud y mae gorbryderu yn yr ysgol nid yn unig yn gwneud hun anodd i blant a glasod i ffocysu a llwyddo mae hefyd yn gallu effeithio ar os mae disgyblion yn mynychu ysgol. Wrth edrych ar yr achos critigol dan sylw mae'n bosib dod i gasgliad os yr oedd y disgybl yn pryderu am ei allwedd yn glo'r tŷ y byddai ei allu i gyflawnu'r dasg neu hyd yn oed gwranddo ar gyfarwyddid yr athrawes yn isel iawn. Mae'r darn o ymchwil yma gan Hurley hefyd yn awgrymu ffurf i hwyluso'r sefyllfa i roi siawns i'r unigolyn dan straen i allu neud eu gwaith. Mae'r darn yma felly yn ddefnyddiol iawn wrth edrych ar yr achos critigol o fewn maes iechyd meddwl y disgybl oherwydd ei fod nid yn unig yn cynnig rhesymeg dros y sefyllfa y mae'r disgybl ynddo ond hefyd yn cyflwyno ffurf ar sut i ddelio gyda'r sefyllfa a fydd yn hanfodol wrth werthuso'r achos critigol.

Gwerthuso a'r camau nesaf

Yn sicr wrth edrych ar feysydd dysgu trwy lenyddiaeth mae'n galluogi gwagle i allu gwerthuso'r hun wnaeth ddigwydd ac yna awgrymu camau nesaf posib all cael ei ddefnyddio. Yng nghyd-destun yr achos critigol roedd yr unigolyn ddim yn neud y dasg a roddwyd gan yr athrawes. Roedd yr unigolyn yn gwneud tasg hollol wahanol. Gellir dehongli'r sefyllfa yma fel achos ble y mae disgybl ddim gyda diddordeb yn y dasg a roddwyd ac am wneud tasg oedd ganddo ddiddordeb ynddo. Mae hwn wrth gwrs yn mynd yn erbyn cynllun dysgu'r athro ac felly a oes angen i'r athro ystyried cynllun gwahanol i'r wers ac efallai defnyddio model o wahaniaethu i enyn diddordeb ar draws y dosbarth. Mae model o wahaniaethu sydd gyda'r nod o enyn diddordeb y dysgwr yn sicr yn gallu cael ei awgrymu yng nghyd-destyn yr achos critigol yma. Os yr oedd gan yr unigolyn y rhyddid i gofnodi'r 'Stori Creu' mewn unrhyw ffordd yr oedd eisiau yn lle ei ysgrifennu allan efallai y byddai hun wedi enyn diddordeb y disgybl. Efallai trwy roi'r dewis o allu creu poster neu bamffled yn hytrach nag ysgrifennu y byddai'r disgybl heb droi at dasg arall.

Ffordd arall gellir dehongli'r achos critigol yma byddai fod yr unigolyn ddim wedi deall y dasg neu yn meddwl ei fod ddim gallu cyflawni'r dasg ac felly mae ef wedi mynd ati i gyflawni tasg arall. Mae angen cofio bod y wers yma yn wers Addysg Grefyddol blwyddyn 9 ac felly mewn blynyddoedd diweddar y mae'r cwrs TGAU Addysg Grefyddol wedi dechrau cael ei dysgu ym mlwyddyn 9. Mae hwn yn golygu efallai bod yr unigolyn yng nghyd-destun yma ddim yn barod i wneud y naid o Addysg Grefyddol yng nghyfnod allweddol 3 i waith Addysg Grefyddol cyfnod allweddol 4 sef y cwrs TGAU. Wrth edrych ar faes dysgu gwahaniaethu

eto mae'n bosib gweld y bod y model o gydweithredu o fewn y wers yn ateb bosib i allu helpu'r disgybl i gyflawni ei waith. Dywedir (McNamara a Moreton, 1997, t.7) bod cydweithredu o fewn y dosbarth yn galluogi dysgwyr i feddwl yn ddyfnach dros ei gwaith ac mae hun yn creu dysgwyr gyda chymhellant uchel. Mae hwn felly yn fodel a all hybu'r unigolyn i eisiau meddwl yn fwy dwys dros y dasg a roddwyd yn hytrach na rhoi'r gorau iddi yn syth a pharhau gyda thasg sydd yn fwy haws iddo.

Yn sicr wrth edrych ar lenyddiaeth fwyaf diweddar mae'n bosib gweld mwy o bwyslais ar bwysigrwydd iechyd meddwl y disgybl o fewn y dosbarth. Mae gorbryderu dros sefyllfa felly yn cysylltu gyda'r achos critigol yma. Wrth i'r unigolyn orbryderu dros adael ei allwedd yng nghlo'r tŷ mae lefel ei ganolbwyntio yn naturiol yn lleihau. Mae'n bosib felly dod i gasgliad bod y disgybl yma ddim gallu parhau gyda'r dasg oherwydd roedd sylw'r unigolyn wedi ei ffocysu ar boeni. Gan ei fod yn bosib y byddai'r unigolyn methu mynd yn ei flaen gyda'r dasg tan y byddai'n gwybod bod sefyllfa'r clo yn iawn, a fyddai'n syniad synhwyrol i gymrid yr unigolyn allan o'r dosbarth i alluogi iddo fynd i'r swyddfa i ddelio gyda'r sefyllfa. Mae'n bosibilrwydd wedyn y byddai ef yn gallu dod yn ôl i gwblhau'r dasg os yr oedd y sefyllfa wedi cael ei ddelio gyda. Yn ychwanegol i hun os yr oedd yr unigolyn heb gael y cyfle i ddelio gyda'r sefyllfa mae'n ddigon bosib y byddai'r gorbryderu yn aros dros y disgybl trwy gydol y diwrnod, ac felly byddai athrawon eraill yn dod ar draws yr un broblem.

Casgliad yr Aseiniad

Mae'r dull penodol yma o arsylwi wedi bod yn fuddiol iawn wrth werthuso achos critigol a hefyd edrych ar y camau nesaf y bydd modd ei gymryd. Roedd arsylwi trwy'r dull o ddim bod yn rhan o'r grŵp ond cael y cyfle i ofyn cwestiynau yn ffordd gwerth chweil o allu casglu gwybodaeth ddiduedd. Roedd y dull yn cynnig strwythur clir ac yr oedd yn galluogi'r arsylwr i gasglu data disgrifiadol a oedd yn arwain at wagle i werthuso'r achos critigol trwy ddefnyddio llenyddiaeth berthnasol ar ôl arsylwi. Wrth ystyried rôl ymarferydd adfyfyriol yng Nghymru heddiw mae'n bosib gweld y byddai'r dull yma o arsylwi yn fuddiol iawn i allu gwella'r ffordd y maent yn addysgu. Trwy arsylwi ar sut y maen nhw neu unigolyn arall yn addysgu ac yna asesu, gwerthuso, cyflwyno ffurf arall ac yna ei ymarfer mae'n galluogi nhw i weld y gwendidau o fewn ei gwaith nhw neu rywun arall a'i wella. Gwelir hwn o fewn yr aseiniad, gwelir yr achos critigol sef y disgybl yn gwneud y dasg anghywir, wedyn cafodd ei werthuso trwy edrych ar lenyddiaeth a oedd wedi cysylltu gyda'r achos sef diffyg gwahaniaethu ac effaith iechyd meddwl. Yn ychwanegol i hun aeth yr aseiniad ati i gynnig camau nesaf posib i'r achos critigol i wella'r sefyllfa yn y pendraw. Mae'n bosib gweld pwysigrwydd canfyddiadau'r aseiniad wrth ei gysylltu gyda Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu

ac Arweinyddiaeth (Llywodraeth Cymru, 2017). I ddatblygu ac i daro'r safonau proffesiynol newydd y mae'n hanfodol i allu rhoi tystiolaeth o eich datblygiad proffesiynol o fewn y dosbarth. Trwy wneud ymchwil yn ffurf yr aseiniad yma mae'n bosib i athro neu athrawes i ddatblygu a gwella o fewn ei yrfa. Trwy asesu achos critigol, gwerthuso'r achos critigol a gwella'r sefyllfa, mae'n sicr yn dangos bod y dull yma yn cysylltu ag yn gwella safonau proffesiynol o fewn y dosbarth.

Atodiadau

Atodiad 1

**NODIADAU ARSYLWI / MAES 2: Digwyddiad dysgu**

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/09/2019
Manylion y digwyddiad dysgu: □ Gwers hanes blwyddyn 9. □ 24 o ddisgyblion yn y wers. □ 50 munud o wers. □ Ddim ond athrawes yn y dosbarth, nid oedd yna cynorthwydd yn y dosbarth.
Diwylliant ar lawr dysgu (Ydy'r disgyblion yn canolbwyntio ar ddysgu?) □ Amgylchedd y dosbarth yn un dda, gyda ddigonedd o adnoddau ar y wal e.e geirfa dechrau brawddeg hanesyddol. □ Eistedd mewn rhesi bachgen/merch am yn ail, galluogi'r bechgyn i allu canolbwyntio mwy oherwydd maent ddim yn eistedd ar bwys ei ffrindiau. □ Gwobrwyo os y maent yn canolbwyntio sef gwrandao ar gerddoriaeth cymraeg wrth iddynt cwblhau y dasg.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r digwyddiad dysgu?) □ Amcan y wers oedd y byddai'r disgyblion yn deall y newid a ddigwyddodd yn ystod y Chwyldro Diwydianol 1750-1900. Roedd pwrpas clir i'r dasg felly wrth iddynt llenwi'r blychau gyda is-deitlau y byddent yn deall y ffactorau gwahanol a wnaeth newid i allu dod i gasgliad o beth wnaeth newid.
Cyfarwyddyd (Ydy'r disgyblion yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) □ Cyfarwyddyd wedi cael ei esbonio yn barod yn y gwers cynt. Roedd angen i'r athrawes ail egluro i rai o'r disgyblion. □ Rhai o'r disgyblion wedi llenwi'r blychau yn anghywir, efallai angen esbonio yn fwy glir?
Mynediad a her (Ydy pob disgybl yn gallu dilyn y digwyddiad dysgu? A gaiff pob disgybl ei herio?) □ Roedd y disgyblion i gyd yn cael mynediad at daflennu gwybodaeth a oedd yn galluogi nhw i lenwi'r blychau. I rai ddisgyblion roedd y darllen a deall yn eu herio. □ I'r disgyblion oedd angen ychydig fwy o her yr oedd hawl iddynt mynd ar yr lpads i wneud ymchwil ychwanegol.
Asesu Sut mae dealltwriaeth disgyblion cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad dysgu? □ Dechrau'r gwers - dangos lluniau a gofyn i'r disgyblion beth y maent yn gweld a beth sydd wedi newid rhwng y ddau llun. mwyafrif o'r disgyblion yn cael siawns i ateb y cwestiwn. □ Wrth iddynt wneud y dasg (cyfnewid gwybodaeth i'r grid) maent gallu mynd mewn i fwy o ddyfnder o eu ddealldwriaeth ar ddechrau'r gwers.
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? □ Rhai o'r disgyblion ddim yn deall sut yr oedd y grid yn gweithio, un bachgen gorfod dechrau ei waith eto. A oedd angen ychydig mwy o esboniad ar sut i lenwi'r blychau? e.e mynd trwy un o'r pwyntiau gyda nhw cyn dechrau. □ Un bachgen yn amharu ar y wers, ddim yn gallu canolbwyntio hyd yn oed ar ol ei rybyddio. Pwyntiau negyddol yn cael ychwanegu i ei enw os yr oedd ef ddim yn neud digon o waith.

Atodiad 2

**NODIADAU ARSYLWI / MAES 2: Digwyddiad dysgu**

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/09/2019
Manylion y digwyddiad dysgu: ☐ Gwers hanes blwyddyn 7. ☐ 24 o ddisgyblion yn y wers. ☐ 50 munud o wers. ☐ Ddim ond Athrawes yn y dosbarth, nid oedd cynorthwydd yn y dosbarth.
Diwylliant ar lawr dysgu (Ydy'r disgyblion yn canolbwyntio ar ddysgu?) ☐ Amgylchedd y dosbarth yn un bositif. ☐ Eistedd mewn grwpiau o dua 4, eistedd bachgen/merch am yn ail. ☐ Amser oedd yr athrawes yn siarad roedd yna ddisgwyl bod pawb yn rhoi ei beiro i lawr, edrych a gwrando. Sicrhau bod pawb yn canolbwyntio.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r digwyddiad dysgu?) ☐ Pwrpas y dasg cyntaf oedd i mynd dros gwaith a chyflawnwyd yn y gwers dwethaf i wneud yn siwr bod pawb wedi ei deall. ☐ Darn nesaf o waith oedd i ysgrifennu am ddigwyddiad cyffroes. Pwrpas hun oedd i allu ddisgrifio ddigwyddiad.
Cyfarwyddyd (Ydy'r disgyblion yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) ☐ Athrawes yn mynd trwy meini prawf llwyddiant y dasg sydd yn y llyfryn, mae hun yn sicrhau bod y disgyblion yn deall beth sydd angen i gyflawnu'r dasg yn dda. ☐ Mae'r athrawes yn gofyn am engreiffitiau o ddigwyddiadau cyffroes y ddisgyblion i allu gwneud yn siwr bod y disgyblion yn glir beth y maent angen gwneud. ☐ Mae'r athrawes hefyd yn gofyn i'r disgyblion i wneud map meddwl o eu syniadau cyn dechrau ei darn ysgrifennu. Roedd yr athrawes yn edrych ar y mapiau meddwl i sicrhau bod y disgyblion yn glir am beth maen nhw'n ei wneud.
Mynediad a her (Ydy pob disgybl yn gallu dilyn y digwyddiad dysgu? A gaiff pob disgybl ei herio?) ☐ Roedd mwyafrif o'r disgyblion wedi gorffen y map meddwl ac yn dechrau ar y dasg ysgrifennu - dangos bod y disgyblion yn gallu dilyn y wers. Er roedd rhai yn amharu ar y wers trwy siarad yn uchel. ☐ Roedd yna geiriau waw yn y llyfryn yr oedd angen i bob ddisgybl ei ddefnyddio yn eu gwaith. Her i rai o'r ddisgyblion oedd i defnyddio geiriau waw ei hunan yn ychwanegol i'r rhai yn y llyfryn. ☐ Roddwyd rheolau treiglo ar y bwrdd i bromptio ei ddefnyddio i wella ei gwaith.
Asesu Sut mae dealltwriaeth disgyblion cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad dysgu? ☐ Ar ol mynd trwy'r dasg gyntaf roedd angen i'r disgyblion rhoi coch, melyn neu gwyrdd ar bwys ei gwaith i wneud yn siwr bod yr athrawes yn ymwybodol o ei dealltwriaeth. ☐ Roedd yna cyfarwyddid i ddim dechrau ei darn ysgrifennu tan yr oedd yr athrawes wedi edrych ar ei map meddwl. Hwn yn sicrhau bod y disgyblion yn deal yn llawn cyn neud y darn ysgrifennu yn llawn.
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? ☐ Un bachgen ddim yn siwr ble y mae'r dosbarth arni pan yn mynd trwy'r atebion yn y tasg gyntaf ac yn amharu pan yr oedd wedi cael ateb yn anghywir.

Atodiad 3



Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES 2: Digwyddiad dysgu

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 02/10/2019
Manylion y digwyddiad dysgu: ☐ Gwers Addysg Grefyddol ☐ Blwyddyn 9 ☐ 24 o ddisgyblion ☐ Ddim ond yr Athrawes yn y dosbarth
Diwylliant ar lawr dysgu (Ydy'r disgyblion yn canolbwyntio ar ddysgu?) ☐ Mwyafrif yn canolbwyntio yn dda iawn oherwydd yr oedd y wers mwy neu lai yn mynd syth mewn i orffen dasg.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r digwyddiad dysgu?) ☐ Pwrpas y wers oedd i ddeall stori'r creu o fewn Genesis erbyn diwedd y wers. ☐ Roedd y dasg o gludo lluniau a wedyn copio stori symlach i fewn i'w llyfrau yn arwain ati nhw'n deall stori'r creu. ☐ Tasg 2 oedd yn ychwanegol i'r rhai oedd wedi gorffen - pwrpas oedd i ddeall y stori yn ddyfnach.
Cyfarwyddyd (Ydy'r disgyblion yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) ☐ Disgyblion yn glir iawn beth y mae angen iddynt gwneud - Athrawes yn ysgrifennu'r cyfarwyddyd ar y bwrdd gwyn cam wrth gam. ☐ Pwyslais ar orffen y gwaith yn y wers yna i wneud yn dda.
Mynediad a her (Ydy pob disgybl yn gallu dilyn y digwyddiad dysgu? A gaiff pob disgybl ei herio?) ☐ Mwyafrif yn dilyn y dasg yn iawn ac yn symud ymlaen i'r dasg nesaf oedd yna yw herio. Er roedd yna cwpwl o ddisgyblion tu ol ar y dasg. ☐ Athrawes yn disgwyl bod hi gallu rhoi pwyntiau gwyrdd (positif) iddynt ar ddiwedd y wers, hwn yn herio nhw i gynnal eu gwaith ac ymddygiad dda. ☐ Athrawes yn gofyn i bawb tanlinellu a gwneud yn siwr bod ei llyfr yn daclus - ellir dweud bod hi'n ei herio i fod yn fwy drefnus.
Asesu Sut mae dealltwriaeth disgyblion cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad dysgu? ☐ Mynd o amgylch y dosbarth yn ystod y dasg i sicrhau dealltwriaeth y disgyblion. ☐ Yn sicr roedd angen gwneud hun yn ystod yr ail dasg.
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? ☐ Bachgen x yn naddi pensil i gael siarad gyda ffrind. ☐ Bachgen x yn gwneud gwaith y dylse fed dim fod yn gwneud. Athrawes yn siarad iddo i weud iddo fe i stopio a gwneud y gwaith cywir. ☐ 4 o'r bechgyn heb cyflawnu'r gwaith oedd wedi nawr treilio 2 wers i wneud. Roedd y gwaith nawr yn gwaith cartref.

Atodiad 4



Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES 2: Digwyddiad dysgu

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 02/10/2019
Manylion y digwyddiad dysgu: ☐ Gwers Hanes ☐ Blwyddyn 9 ☐ 24 o ddisgyblion ☐ Ddim ond Athro yn y dosbarth
Diwylliant ar lawr dysgu (Ydy'r disgyblion yn canolbwyntio ar ddysgu?) ☐ Mwyafrif o'r disgyblion yn gwrandao'n astud a gweithredu ar y tasgau. ☐ Eistedd bachgen/merch am yn ail, wedi eu gwasgaru o ffridiau. ☐ Awyrgylch distaw am fwyafrif o'r gwers ond erbyn y diwedd yr oeddent wedi cynhyrfu.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r digwyddiad dysgu?) ☐ I allu dechrau ar eu traethodau erbyn ddiwedd y wers. ☐ Y dasg oedd edrych ar draethawd engreiffiol a wedyn mynd ati i wneud sylwadau positif a negyddol - pwrpas hwn oedd i nhw ddeall bet hi wneud a beth ddim i wneud o fewn ei traethawd.
Cyfarwyddyd (Ydy'r disgyblion yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) ☐ Cyfarwyddyd clir iawn i sicrhau trefn i waith y disgyblion. ☐ Mynd trwy cyfarwyddyd y llyfryn i wneud yn siwr bod pawb pawb yn deal y dasg. ☐ Cadw at gyfarwyddyd y lefel targed - hwn yn dangos sut i wneud yn dda i gyrraedd ei lefel targed ei hunan.
Mynediad a her (Ydy pob disgybl yn gallu dilyn y digwyddiad dysgu? A gaiff pob disgybl ei herio?) ☐ Pwyslais ar fod yn gyfarwydd a'i lefelau targed. Rhaid ysgrifennu 2 peth sydd angen gwneud i fwrw'r lefel targed. Gwneud yn siwr bod pawb yn ymwybodol beth yw'r heriau y maent yn gwynebu wrth neud y traethawd. ☐ Roedd y dasg o gwneud sylwad ar y traethawd engreiffiol (ar lafar) yn her i rhai, roedd angen rhai cael ei broptio i ateb.
Asesu Sut mae dealltwriaeth disgyblion cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad dysgu? ☐ Asesu trwy ofyn pwy sydd wedi gwneud y gwaith cartref. ☐ Gweithio gyda'r plant i edrych ar bwy sylwadau dylai cael ei rhoi ar y traethawd engreiffiol.
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? ☐ Dau o'r ddisgyblion heb gwneud gwaith cartref. ☐ Tipex yn cael ei basio ar draws y dosbarth i ferch x cael ei ddefnyddio i beintio ei cyfrifianell wrth iddi ddim gwrandao. ☐ Bachgen x yn eistedd yn dawel ond ddim yn ysgrifennu na chanolbwyntio. ☐ Gem cyn y dasg olaf - cynhyrfwyd y disgyblion ac felly roedd y mwyafrif ohonynt yn gweld hun anodd i wneud y dasg olaf sef cychwyn ar eu traethawd, drafft 1.

Atodiad 5



Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Model Beirniad Wedi Adfyfrio (BWA) *Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model*

Dyddiad/Date: 26/09/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Rhai o'r disgyblion ddim yn siwr sut i gyflawni'r dasg yn gywir.

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Arsylwi dosbarth hanes blwyddyn 9. Cwblhau grid a oedd yn dangos sut y gwnaeth Prydain newid yn sgil y chwyldro diwydiannol trwy ddefnyddio taflennu gwybodaeth ac yn ychwanegol yr Ipads. Cymhelliant weddol uchel o fewn y dosbarth gyda mwyafrif o'r dosbarth yn mynd ymlaen gyda'i gwaith. Dechreuwyd y wers trwy dangos lluniau o beth a wnaeth newid yn ystod y cyfnod i atgoffa'r disgyblion o'r testun a chael nhw i fynd at lenwi'r grid gyda hyder ar ôl mynd trwy beth yr oeddent wedi dysgu yn barod ar lafar.
Cofio a Deall/ Remember and Understand Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda? "Can you list the aspects of the learning experience that went well?" Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig? "What were the elements of the learning experience that were disappointing?"	Roedd yna strwythur clir i'r wers gyda thasg gyflym ar y dechrau ac wedyn yna yn syth i mewn i'r dasg a gafodd ei esbonio yn y wers cynt a hefyd ar ddechrau'r wers. Agwedd o'r wers oedd yn dda oedd sut yr oedd yr athrawes yn gwobrwyo'r disgyblion. Roedd yr athrawes yn rhoi cerddoriaeth Cymraeg arno yn y cefndir os yr oedd y disgyblion yn gweithio yn dawel. Hefyd roedd amgylchedd y dosbarth yn gymorth i'r disgyblion wrth i'r wal flaen dangos geirfa hanesyddol. Roedd cyflymdra'r wers yn dibynnu ar yr unigolyn. Roedd yr achos critigol yn gamgymeriad gan rhai o'r disgyblion. Wrth i'r disgyblion mynd ati i lenwi'r grid fe wnaeth rhai o'r disgyblion llenwi'r grid yn anghywir ac roedd rhaid i rai ohonynt ddechrau eto.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol? "What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?" Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf? "What was the cause of the most important disappointing element?"	Roedd y defnydd o'r Ipads yn bositif iawn wrth sôn am wahaniaethu. Roedd y dasg ychwanegol yma yn galluogi'r rhai oedd wedi defnyddio'r taflennu gwybodaeth i'r eithaf i fynd ati i wneud ymchwil ei hunan. Mae'n bosib dweud bod yr achos critigol wedi digwydd oherwydd roedd y rhai a wnaeth dechrau'r grid yn anghywir ddim gwrandao ar y cyfarwyddyd yn y wers ddiwethaf. Er bod y tudalen A3 gyda'r grid arno gydag arwyddion clir arnynt mae'n bosib bod yr athrawes heb esbonio yn ddigon clir i'r rhai wnaeth dechrau yn anghywir.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions Beth yw eich atebion posibl i'r materiaon siomedig a nodwyd? "What are your possible solutions to the disappointing issues identified?" Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf? "What will you do next?"	Ateb posib i'r achos critigol yma byddai nid yn unig mynd trwy'r grid gan wneud yn siŵr bod pawb yn gwrandao yn astud, ond hefyd efallai mynd trwy un o'r enghreifftiau gyda'r dosbarth i wneud yn siŵr bod nhw'n gwybod ble i roi ei gwybodaeth nhw ar y grid. Yn ychwanegol i hun efallai dylai'r athrawes darganfod ffordd y byddai'n dangos y bod pob un o'r disgyblion yn y dosbarth yn sicr ar beth y dylen nhw ei gwneud cyn rhoi pen i bapur.

Atodiad 6



Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) *Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model*

Dyddiad/Date: 26/09/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Roedd un o'r disgyblion yn amharu ar y dosbarth.

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Arsylwi dosbarth Hanes blwyddyn 7 ar y thema 'Digwyddiad Cyffroes'. Roedd yna gymhelliant uchel ac awyrgylch positif yn y dosbarth. Roedd mwyafrif o'r disgyblion eisiau taflu ei syniadau allan i weddill y dosbarth cael clywed eu profiadau. Er hun roedd yna siarad dwys am y gwaith, roedd yn bosib digalonni gyda'r nifer oedd yn siarad o fewn y dosbarth yn Saesneg a ddim yn y Gymraeg.
Cofio a Deall/ Remember and Understand Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda? "Can you list the aspects of the learning experience that went well?" Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig? "What were the elements of the learning experience that were disappointing?"	Fe aeth yr athrawes dros y meini prawf llwyddiant y darn ysgrifennu estynedig ar eu digwyddiad cyffroes, roedd hwn yn sicrhau bod y disgyblion yn glir ar beth yr oedd angen iddynt wneud i lwyddo yn y pen draw. Agwedd arall aeth yn dda oedd y dasg o greu map meddwl bach a oedd fel cynllun i'r disgyblion. Roedd yn bosib i'r athrawes asesu os yr oedd y disgyblion ar y trywydd iawn cyn iddynt ddechrau ei thasg ysgrifennu. Er oedd mwyafrif o'r disgyblion yn gweithio'n gyson roedd yna unigolyn yr oedd yn cadw amharu ar y disgyblion eraill. Cafodd yr unigolyn ei symud i eistedd ar ben ei hunan ond roedd hwn tuag at ddiwedd y wers ac felly heb gael effaith ar ei ymddygiad. Yn ychwanegol i hun roedd llawer o'r disgyblion yn gofyn yn aml i'r athrawes i gyfieithu geiriau heb ofyn am eiriadur unwaith.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol? "What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?" Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf? "What was the cause of the most important disappointing element?"	Yn sicr roedd y darn o'r wers ble aeth yr athrawes trwy'r meini prawf llwyddiant yn llwyddiannus. Roedd y darn yma o'r wers yn galluogi'r disgyblion i gael esboniad clir o beth yr oedd angen iddynt wneud i lwyddo yn y dasg. Achos bosib i'r achos critigol oedd bod yr unigolyn ddim yn deall y gwaith er yr aeth yr athrawes drosodd ar ddechrau'r wers. Mae'n bosib hefyd bod y disgybl wedi diflasu gyda'r darn ysgrifenedig ac felly aeth ati i siarad ag osgoi gwneud y gwaith. Fe wnaeth yr athrawes symud y disgybl ond ddim ond tuag at ddarn olaf y wers ac felly cafodd hwn ddim llawer o effaith ar ymddygiad yr unigolyn.
Casgliadau a chymau gweithredu/ Conclusions and actions Beth yw eich atebion posibl i'r materiau siomedig a nodwyd? "What are your possible solutions to the disappointing issues identified?" Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf? "What will you do next?"	Ateb posib y byddai gweithredu'r gosb o symud yr unigolyn yn gynharach yn y wers. Byddai hun yn galluogi'r athrawes i gadw llygaid ar y gwaith yr oedd y disgybl yn gwneud a byddai'r disgybl ddim yn eistedd ar bwys ei gyfoedion sydd yn golygu y byddai'n llai tebygol o amharu arnynt.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Atodiad 7



Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Model Beirniad Wedi Adfyfrio (BWA) *Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model*

Dyddiad/Date: 02/10/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Bachgen yn gwneud y gwaith anghywir.

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Arsylwi dosbarth blwyddyn 9 Addysg Grefyddol ar y thema Stori'r Creu. Cymhelliant uchel gyda mwyafrif yn y dosbarth. Teimlad o awryglch dawel gyda mwyafrif o'r disgyblion yn taro ymlaen gyda'r gwaith yn syth ar ol cael cyfarwyddyd. Er hun roedd un o'r disgyblion yn gwneud y gwaith anghywir. Copio oedd y dasg a roedd y disgybl yn lluwio mewn tasg arall. Roedd y disgybl yn gwybod ei fod yn neud y dasg anghywir.
Cofio a Deall/ Remember and Understand Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda? "Can you list the aspects of the learning experience that went well?" Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig? "What were the elements of the learning experience that were disappointing?"	Roedd yna strwythur i'r wers gyda cyfarwyddyd wedi ei rhestru ar y bwrdd gwyn. Roedd cyflymdra'r wers yn un oedd yn dibynnu ar yr unigolyn. Roedd angen cwblhau tasg a gychwynwyd yn y wers blaenorol, a wedyn darparwyd tasg ychwanegol i'r rhai oedd wedi gorffen ac angen mwy o waith. Fe wnaeth mwyafrif o'r dosbarth cyflawni'r brif dasg a mynd ymlaen i'r dasg ychwanegol ac felly roedd yr agwedd yma o'r wers yn bositif iawn. Roedd y digwyddiad critigol yn tarfu lefel isel. Roedd y bachgen yn amharu ar ei waith ei hunan a gwaith ei gyfoedion trwy gwasgaru ei bensiliau lliw ar y bwrdd i wneud y dasg lluwio yn lle gwneud y dasg o gopio yn dawel.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol? "What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?" Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf? "What was the cause of the most important disappointing element?"	Roedd y defnydd o greu tasg ychwanegol i'r myfyrwyr oedd wedi cwblhau'r prif dasg yn bositif iawn i ddealltwriaeth fwy eang y disgybl am y pwnc yma. Achosion bosib i'r achos critigol byddai bod yna ddim ddiddordeb gan y disgybl at y gwaith oedd angen cyflawnu. Pan aeth yr Athrawes i weud iddo i wneud y gwaith cywir a gofyn pam yr oedd ef yn neud gwaith arall fe wedodd ei fod yn poeni ei fod wedi gadael allweddau'r ty o fewn y clo adref a dyna pam yr oedd ddim gallu canolbwyntio a gwneud y dasg cywir. Er hun mae'n bosib bod y rheswm yma yn esgus y mae'r bachgen wedi ei ddefnyddio oherwydd does ganddo ddim ddiddordeb yn y gwaith sy'n cael ei rhoi iddo wneud. Mae'n bosib bod y disgybl wedi colli diddordeb gyda'r dasg ar ol iddo ei wneud o'r wers dwethaf. Mae hefyd yn bosib oherwydd mae'r cwrs TGAU Addysg Grefyddol wedi dechrau yn gynnar (blwyddyn 9) mae'r gwaith yn ei herio ef a mae'r disgybl yn rhoi llan yn syth.



Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Casgliadau a chymau gweithredu/ Conclusions and actions Beth yw eich atebion posibl i'r materiau siomedig a nodwyd? "What are your possible solutions to the disappointing issues identified?" Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf? "What will you do next?"	Ateb posib i'r achos yma byddai i gydnabod rheswm y disgybl a'i dweud wrtho ddim i boeni am y peth a chynnig ateb sef i mynd i'r swyddfa amser egwyl i ofyn am gymorth. Mae'n bosib y cam nesaf byddai i symud y disgybl yma yn agosaf at y blaen. Byddai hun yn galluogi'r athrawes cadw llygaid ar gynnydd y disgybl. Byddai'n bosib hefyd i newid y dasg. Byddai gwneud y dasg yn un fwy cyffroes e.e trwy geiriau ei hunan neu darllen a deall efallai yn cadw'r disgybl ar dasg.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Atodiad 8



Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) *Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model*

Dyddiad/Date: 02/10/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Disgybl yn eistedd yn dawel ond ddim yn gwneud unrhyw gwaith nag yn canolbwyntio.

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Gwers hanes blwyddyn 9 a oedd yn canolbwyntio ar draethawd enghreifftiol o'r newidiadau a ddigwyddodd yn sgil y chwyldro diwydiannol. Roedd mwyafrif o'r disgyblion yn gwrandao yn astud ar yr athrawes ac yn gweithredu ar y tasgau a osodwyd. Roedd yna strwythur clir i'r wers gyda thasg ychwanegol yn olynu pob tasg. Er roedd yna ddigonedd o waith i wneud roedd un disgybl ddim yn canolbwyntio ac yn llywio mewn ei chyfrifiannell gyda tipex.
Cofio a Deall/ Remember and Understand Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda? "Can you list the aspects of the learning experience that went well?" Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig? "What were the elements of the learning experience that were disappointing?"	Roedd yr agwedd o fynd trwy draethawd enghreifftiol yn brofiad positif iawn i'r disgyblion. Roedd y dasg yma yn dangos beth ddylid cynnwys o fewn y traethawd a beth ni ddylid cynnwys o fewn y traethawd. Roedd cyflymdra'r wers yn un da, roedd yn gwrthio i bob disgybl i weithio yn gyson trwy gydol y wers. Agwedd siomedig oedd y ffaith bod cwpl o'r disgyblion heb wneud y gwaith cartref o'r wers ddiwethaf. Roedd y ffaith bod yna ddim canlyniad i hun. Roedd y digwyddiad critigol yn tarfu lefel isel. Roedd y disgybl ddim yn canolbwyntio ar y cyfarwyddiadau ac felly ddim gallu cyflawni'r gwaith. Aeth hwn heb sylw oherwydd roedd y disgybl yn dawel.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol? "What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?" Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf? "What was the cause of the most important disappointing element?"	Fe wnaeth yr athrawes sicrhau bod pob disgybl yn gyfarwydd gyda'i lefel targed a sut i fwrw ei lefel targed cyn dechrau eu traethodau. Achosion bosib i'r achos critigol yw bod y disgybl wedi llethu gyda'r gwaith ac yn hytrach na gofyn am gymorth penderfynir ddim rhoi ymdrech i mewn i'r gwaith. Mae'n bosib hefyd bod y tasgau a rhoddwyd ddim wedi enyn ddiddordeb y disgybl.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions Beth yw eich atebion posibl i'r materion siomedig a nodwyd? "What are your possible solutions to the disappointing issues identified?" Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf? "What will you do next?"	Ateb posib i'r achos critigol oedd dod o hyd i ffordd y byddai yn sicrhau bod yr athrawes yn gwybod bod pawb yn deall y dasg. Ateb posib arall byddai bod yna fwy o drafod am y tasgau ar lafar i sicrhau bod pawb yn gallu dilyn y gwaith a'i chyflawni.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Llyfryddiaeth

- Carolan. J a Guinn. A (2007) *Differentiation: Lessons from Master Teachers*. IL, UDA. Argosy University.
- Cohen. L, Manion. L, Morrison. K (2011) *Research methods in Education*, 7th Ed, London, Routledge.
- Donaldson, G. (2015) *Successful Futures, Independent Review of Curriculum and Assessment Arrangements in Wales*. DU, Llywodraeth Cymru.
- Estyn, Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales. (2016) *A report on 'enw ysgol a chyfeiriad'*, Estyn.
- Llywodraeth Cymru (2018) *Fy Ysgol Leol*, Available at: <http://mylocalschool.gov.wales>
- Llywodraeth Cymru (2019) *National School Categorisation System, A guide for parents and carers*. Available at: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-01/national-school-categorisation-system-guidance-for-parents-and-carers.pdf>
- Llywodraeth Cymru (2017) *Safonau Proffesiynol*. Available at: <https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/safonau-proffesiynol/>
- Hurley, K. (2018) *Classroom Accommodations to Help the Anxious Child at School*. PSYCOM. Available at: <https://www.psycom.net/classroom-help-anxious-child-at-school/>
- Jorgensen, D. L. (1989) *Participant Observation A Methodology for Human Studies*, Vol 15, California and London, SAGE Publications.
- McNamara, S a Moreton, G. (1997) *Understanding Differentiation A Teachers Guide*. Llundain, David Fulton Publishers.
- National Scientific Council on the Developing Child (2010). *Persistent Fear and Anxiety Can Affect Young Children's Learning and Development*. Working Paper No. 9. Harvard University. Available at: <http://www.developingchild.net>
- Roberson. T. J. (1998) *Classroom Observation: Issues Regarding Validity and Reliability*, Mississippi, The University of Southern Mississippi Hattiesburg.
- Tripp, D. (1993) *Critical Incidents in Teaching*. Oxon, DU. Routledge.
- VanTassel-Baska, J. (2012) *Analyzing Differentiation in the Classroom*. VA UDA, SAGE Publications.